

Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru: Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau 12 Tachwedd 2020 – 10:00-12:30

Yn bresennol			
Jonathan	Ackland	JA	Llywodraeth Cymru
Rhodri	Bowen	RB	Pobl a Gwaith
Lewis	Clarke	LC	RSPCA
Mal	Colley	MC	Canolfan Ganser Tenovus
John	Gossage	JG	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Stephanie	Howarth	SH	Llywodraeth Cymru
David	James	DJ	Swyddog Galluogi Tai Gwledig Sir Fynwy
Catrin	James	CJ	Urdd Gobaith Cymru
Sue	Leake	SL	Llywodraeth Cymru
Carys	Moseley	CM	Cytûn
Anna	Nicholl	AN	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Hade	Turkmen	HT	Chwarae Teg
Iestyn	Wyn	IW	Stonewall Cymru
Cyflwynwyr			
Anna	Adams	AA	Swyddfa Ystadegau Gwladol
Melanie	Brown	MB	Llywodraeth Cymru
Luned	Jones	LJ	Llywodraeth Cymru
Kat	Paes	KP	Swyddfa Ystadegau Gwladol
Ymddiheuriadau			
David	Cook		Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Martin	Fidler Jones		Gofal Canser Tenovus
Paul	Glaze		Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol
Ruth	Marks		Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
David	Hagendyk		Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
Gwennan	Hardy		Cyngor ar Bopeth
Chris	O'Brien		RSPCA Cymru
Bethan	Shoemark-Spear		Age Connects Morgannwg

1	Croeso a Phapurau	Stephanie Howarth, Llywodraeth Cymru
Croesawodd SH bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd ei hun fel y Prif Ystadegydd dros dro. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol (30 Ebrill 2020) heb unrhyw ddiwygiadau. Trafododd SH gamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol: rhannwyd y llythyr i awdurdodau lleol ynghylch gohirio casglu data ar 5 Mai 2020. Ni fu cwestiynau ynghylch bod yn berchen ar anifail anwes yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ers 2014-15. Mae tîm Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru wedi gofyn am hynny ar gyfer arolwg 2021-22 a gaiff ei ystyried. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru erthygl ystadegol ar 'Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru' – fe'i trafodir ymhellach yn ystod yr eitem ar COVID-19 sydd ar yr agenda. Caiff crynodeb o'r adroddiadau niferus sydd wedi tynnu sylw at y ffordd y gallai COVID-19 effeithio ar iechyd a llesiant grwpiau ethnig gwahanol ei gyhoeddi'n fuan. Cylchlythyr Ystadegau Chwarterol: Nododd SH fod y cylchlythyr hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth newydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi drwy gydol y pandemig. Tynnodd SH sylw at fformat newydd y datganiadau ystadegol blyneddol ar 'Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur' a 'Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)'. Croesewir adborth a gellir ei anfon i ystadegau.addysgol16@llyw.cymru. Anogwyd y sawl a oedd yn bresennol i edrych ar yr erthygl a gyhoeddwyd ar amcangyfrifon o'r angen am dai. Soniodd SH am waith arloesol yr Uned Ymchwil Data Gweinyddol yn cysylltu'r rhestr o'r cleifion a warchodir â setiau data eraill er mwyn deall mwy am y rhai sy'n gwarchod eu hunain. Tynnodd SL sylw at y data wythnosol a gyhoeddir ar bresenoldeb disgyblion ysgol nad oeddent wedi'u crybwyll yn y cylchlythyr. Cylchlythyr Demograffeg: Nododd SH fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol diwygiedig yn seiliedig ar 2018. Mae'r rhain bellach yn dangos tuedd tymor hwy wahanol ar gyfer Cymru. O ganlyniad i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio amcanestyniadau poblogaeth a chartrefi awdurdodau lleol. Hefyd, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer 2019 ym mis Mehefin. Bellach mae deddfwriaeth i alluogi Cyfrifiad 2021 i gael ei gynnal yng Nghymru ar waith. Soniodd SH am ymgynghoriadau diweddar SYG ar amseru amcanestyniadau poblogaeth a daearyddiaethau'r cyfrifiad.		Cam gweithredu: Aelodau i anfon unrhyw adborth am y datganiadau ynghylch cyfranogiad a phobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i post16ed.stats@gov.wales
2	COVID-19 (gan gynnwys yr effaith ar gydraddoldeb)	Stephanie Howarth, Llywodraeth Cymru
Cyfeiriodd SH at y diweddariad a roddodd Glyn Jones yn y cyfarfod blaenorol ynghylch effaith pandemig COVID-19 ar gasgliadau data ac allbynnau ystadegol Llywodraeth Cymru. Rydym wedi hysbysu defnyddwyr am y newidiadau diweddaraf drwy fforymau fel yr un hwn a blogiau ar wefan Llywodraeth Cymru. Dangosodd SH y dudalen 'Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â coronafeirws (COVID-19)' ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae ystod eang o		

gyhoeddiadau newydd – rhai cyhoeddiadau rheolaidd (yn cynnwys rhai dyddiol ac wythnosol) a rhai ad-hoc. Parheir i ohirio neu ganslo rhai casgliadau data. Nid ar chwarae bach y penderfynir gwneud hyn a byddwn yn hysbysu defnyddwyr am y newidiadau diweddaraf.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

Sut y cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ystod y pandemig? (RB)
Eglurodd SH y cafodd ei gynnal dros y ffôn gan newid cwestiynau a chynnwys fel ei bod hi'n haws gwneud hynny. Tanlinellodd SH bwysigrwydd rhoi cyfrif am unrhyw effaith y gallai'r newid fod wedi'i chael ar yr arolwg. Mae SYG wedi wynebu'r broblem hon yn ddiweddar wrth gynnal yr Arolwg o'r Llafurlu ac mae wedi ailbwysoli'r data'n briodol, gan arwain at newid ffigurau cyflogaeth ar gyfer Cymru.

Beth yw'r diweddaraf am gasglu data ar waith ieuenctid? (CJ)

Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo ar ôl iddo gael ei ohirio'n wreiddiol. Ni fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r fformat a welwyd y llynedd. Mae'n bwysig nodi mai dim ond data ar waith ieuenctid a wneir drwy awdurdodau lleol, ac nid y sector gwirfoddol, a gesglir.

Rhoddodd SL y wybodaeth ddiweddaraf am waith ym maes cydraddoldeb. Aeth y Prif Weinidog ati'n gyflym i sefydlu Grŵp Cynghorol Iechyd BAME Cymru ar COVID-19 gydag ystadegwyr ac ymchwilyr yn rhan ohono. Edrychodd y gwaith dadansoddol ar feysydd fel y farchnad lafur, incwm, tlodi, amddifadedd a deiliadaeth tai, yn ogystal â chanlyniadau iechyd. Cyhoeddwyd yr erthygl ystadegol ar [‘Coronafeirws \(COVID-19\) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru’](#) ym mis Mehefin. Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar yr effaith ar bobl anabl a grwpiau eraill. Gofynnodd IW a oedd unrhyw waith wedi edrych ar effaith y pandemig ar bobl LGBT – nid oedd unrhyw beth penodol eto. Cytunodd yr aelodau fod rhyngblethedd yn bwysig wrth edrych ar effaith y pandemig ar grwpiau cydraddoldeb gwahanol.

Tynnodd LJ sylw at arolwg ar effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg. Y gobaith yw y gellir cyhoeddi canlyniadau lefel uchel ar wefan Llywodraeth Cymru cyn y Nadolig, a chyhoeddi mwy wedyn yn y flwyddyn newydd.

Gwahoddodd SH yr aelodau i ddiweddarau'r grŵp ar unrhyw waith a oedd yn cael ei wneud yn eu sefydliadau nhw:

- Soniodd CJ am arolwg a gynhaliwyd ym mis Ebrill gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ar effaith COVID-19 ar ddarparwyr gwasanaethau. Cynhelir arolwg arall ym mis Tachwedd.
- Trafododd DJ ddata ar y farchnad dai i gefnogi polisi tai gwledig a fforddiadwy. Nid oes cymaint o ddata ar gael am ei bod hi'n cymryd mwy o amser i brynu eiddo yn ystod y pandemig. Mae hyn yn peri heriau wrth geisio dadansoddi ardaloedd bach. Soniodd DJ am y gyfran uchel o ail gartrefi sy'n cael eu prynu. Tynnodd SL sylw at gymhlethdod y data ac eglurodd y byddai data newydd ar y Dreth Trafodiadau Tir yn cael eu rhyddhau ar 13 Tachwedd 2020, ynghyd â blog cysylltiedig, a allai helpu i egluro hyn.
- Cyfeiriodd LC at y cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn berchen ar anifail anwes yn ystod y pandemig. Roedd llai o adnoddau ar gael o fewn y sector, ac roeddent yn disgwyl gweld mwy o alw wrth i

Cam gweithredu: SH i drafod yr angen am ddata ar fod yn berchen ar anifail

	bobl ddychwelyd i'r gwaith. Nododd LC nad oedd data penodol ar gael ar fod yn berchen ar anifail anwes, a bod angen rhywbeth ar lefel genedlaethol. - Soniodd CM am ddiddordeb cydweithwyr yn Strategaeth Unigrwydd Llywodraeth Cymru, a gofynnodd a oedd unrhyw waith dadansoddol yn y maes hwn. Tynnodd SH sylw at Arolwg Cenedlaethol Cymru, arolwg 'Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?' lechyd Cyhoeddus Cymru, a gynhelir bob pythefnos, ac arolwg SYG ar Safbwyntiau a Ffyrdd o Fyw. SH i roi CM mewn cysylltiad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y strategaeth. - Soniodd HT am ymchwil Chwarae Teg i fenywod, gwaith a COVID-19. - Cyfeiriodd IW at natur wasgaredig ymchwil sy'n edrych ar effaith y cyfyngiadau ar bobl LGBT. Mae Stonewall yn cyflawni sawl prosiect ar hyn o bryd.	anwes â thîm yr Arolwg Cenedlaethol Cam gweithredu: SH i roi CM mewn cysylltiad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y strategaeth unigrwydd
3	Effaith y pandemig ar y farchnad lafur	Luned Jones a Melanie Brown, Llywodraeth Cymru
	Rhoddodd LJ drosolwg o rôl tîm Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru, a rhai o'r heriau a wynebier o ran data. Rhoddodd MB drosolwg o'r farchnad lafur cyn y pandemig a'r sefyllfa bresennol yn seiliedig ar yr ystadegau a gyhoeddwyd yr wythnos hon. Hefyd, disgrifiodd MB ddata ynghylch diswyddiadau, gweithwyr ar ffyrlo, cymorth incwm i bobl hunangyflogedig, a swyddi gwag. Hefyd rhannwyd data o arolwg SYG ar effaith y coronafeirws ar fusnesau. Nododd LJ ble y gellid dod o hyd i ddata ar wefan Llywodraeth Cymru.	
4	Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyfrifiad 2021	Kat Paes ac Anna Adams, Swyddfa Ystadegau Gwladol
	Rhoddodd KP drosolwg o Gyfrifiad 2021, gan gynnwys cwestiynau newydd a'r amserlen. Y nod yw cynnwys pawb. Soniodd KP am y gwasanaethau cymorth a oedd ar gael i wneud y cyfrifiad yn hygyrch, gyda'r nod o sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn llenwi'r holiadur, a bod unrhyw amrywiad rhwng grwpiau o'r boblogaeth mor fach â phosibl. Eglurodd KP y camau ychwanegol a oedd yn yr arfaeth ar gyfer Grwpiau Allweddol o'r Boblogaeth a'r nod o gyrraedd sefydliadau'r trydydd sector. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â KP os oeddent yn gwybod am unrhyw unigolion o fewn sefydliadau neu rwydweithiau a fyddai â diddordeb mewn gweithio gyda SYG i gefnogi cymunedau yn ystod y cyfrifiad. Caiff yr allbynnau cyntaf eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2022. Mae SYG wrthi'n datblygu system lledaenu ystadegau ryngweithiol a hyblyg ar gyfer y we. Rhoddodd AA gyflwyniad ar ymgysylltu ag ardaloedd lleol yng Nghymru. Eglurwyd rôl rheolwyr ymgysylltu'r cyfrifiad. Rhennir negeseuon sy'n mynd i'r afael â phryderon sy'n benodol i Gymru. Rhoddodd KP drosolwg o'r adnoddau a fydd ar gael i helpu pobl LGBT i gymryd rhan, mewn ymateb i gwestiwn gan IW. Bydd hyn yn cynnwys holiaduron i unigolion, y gall pobl eu llenwi ar wahân i holiadur y cartref.	Cam gweithredu: Yr aelodau i gysylltu â Kat Paes neu @ons.gov.uk os byddant yn gwybod am unrhyw unigolion o fewn sefydliadau neu rwydweithiau a fyddai â diddordeb mewn gweithio gyda SYG i gefnogi cymunedau yn ystod y cyfrifiad

5	Y wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth	Stephanie Howarth, Llywodraeth Cymru
	Soniodd SH am ddrafft diweddaraf y strategaeth hon a'r alwad am astudiaethau achos i ddangos enghreifftiau da o gynnwys defnyddwyr.	Cam gweithredu: Dylai'r aelodau roi unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio mewn astudiaeth achos i Tegwen.Green@statistics.gov.uk
6	Unrhyw fater arall	Stephanie Howarth, Llywodraeth Cymru
	Ni chodwyd unrhyw beth o bwys. Diolchodd SH i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod, a daeth â'r cyfarfod i ben.	

Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru 12 Tachwedd 2020 Crynodeb o'r Camau Gweithredu		
1	Aelodau i anfon unrhyw adborth am y datganiadau ynghylch cyfranogiad a phobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i ystadegau.addysgol16@llyw.cymru	Aelodau
2	SH i drafod yr angen am ddata ar fod yn berchen ar anifail anwes â thîm yr Arolwg Cenedlaethol	Stephanie Howarth
3	SH i roi CM mewn cysylltiad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y strategaeth unigrwydd	Stephanie Howarth
4	Yr aelodau i gysylltu â Kat Paes neu 2021Census.Engagement@ons.gov.uk os byddant yn gwybod am unrhyw unigolion o fewn sefydliadau neu rwydweithiau a fyddai â diddordeb mewn gweithio gyda SYG i gefnogi cymunedau yn ystod y cyfrifiad	Aelodau
5	Dylai'r aelodau roi unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio mewn astudiaeth achos am gynnwys defnyddwyr i Tegwen.Green@statistics.gov.uk	Aelodau